

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Brycheiniog a Maesyfed 2018

Beirniadaeth Rhyddiaith Bl. 10 ac 11

Rhif: 386/1 Eira

Stori effeithiol am golli ffrind agos (o bosibl chwaer) trwy hunan-laddiad a'r euogrwydd am beidio â sylwi bod angen help arni. Ceir disgrifiadau da o'r hunllef mae hi'n ei fyw wrth geisio parhau - gyda chyffuriau, meddygon a seicolegwyr. Mae hi'n credu bod pobl yn ei beio am fethu â sylweddoli bod angen help ar Eira ar ôl marwolaeth ei thad.

Rhif: 386/2 Cain

Stori gref iawn am effaith hunan-laddiad ar ffrind gorau. Dechreuwa'r stori mewn ffordd drawiadol gan dynnu'r darllynydd i ganol y tristwch a'r dicter. Ceir disgrifiadau da o ymateb yr ysgol a ffrindiau eraill a dysgwn am berthynas y ddwy wrth i'r awdur/es gofio'r dyddiau a fu. Diwedd glo trawiadol iawn sydd i'r stori "Mae fy mywyd i wedi difetha – i gyd oherwydd "cymwynas" Cain. Achos tristwch fi – doedd o ddim yn gymwynas. Ac fydd o byth. Byth bythoedd."

Rhif: 386/3 Gaeaf

Stori ffuglen wyddonol arbennig o dda. Mae Emrys yn deffro o drwmgwsg heb wybod ble y mae ac yn methu â chofio dim. Yn raddol, trwy gymorth haid o robotiaid (sy'n "atomau yn arnofio yn yr awyr tan i rywun eu galw") fe ddysgwn ei fod ar LOR (Llong Ofod Rhyngalaethol) yn un o 5,000 o bobl eraill. Ond fe ddigwyddodd drychineb – haint yn yr awyr – a dim ond fe a Cerys Llywelyn sydd ar ôl. Dysgwn hefyd fod y robotiaid wedi "uwchraddio" Emrys a Cerys fel nad oes modd iddynt farw. Datblyga'r stori mewn ffordd afreal ond credadwy hyd nes i Emrys, ynghanol ei alar ar ôl marwolaeth Cerys, gipio llong ofod fach a dychwelyd at y ddaear. Yn anffodus roedd yr haint, oedd wedi lladd bron y cyfan o'r 5,000 o bobl, wedi tarddu o'r ddaear ac mae'r blaned yn ddiffaith. Gorffena'r stori mewn ffordd drawiadol ac arswydus – roedd yr "uwchraddio" yn golygu bod Emrys yn "anfarwolun. A dyna lle y bu Emrys yn sgrechian a bloeddio fel gwallgofddyn am weddill tragwyddoldeb."

Rhif: 386/4 Seren

Stori dda am fenyw yn gwneud cymwynas i'w ffrind gorau sef, cario babi ar ei chyfer. Ceir hanes eu bywydau cynnar – ffrindiau bore oes ac yna'r siom o fethu â chael plant. Yna'r cynnig o fod yn "surrogate" a'r amheuan yn ystod y naw mis. Ond yn y diwedd "un peth oedd yn sicr roedd hi'n gymwynas fawr ac yn un na fyddwn byth yn anghofio".

Rhif: 386/5 Eira Wen

Dechreuwa a gorffena'r stori gyda sŵn sgrech a seiren – cloc larwm a seiren heddlu. Mae'r person yn gwneud cymwynas â chymydog sy'n sal – mynd i'r siop i brynu papur newydd – ond daw ffrwydriad bom i ddinistrio'r cyfan. Ceir disgrifiadau da o sioc a theimladau'r person wrth i'w bywyd "llithro i ffwrdd yn araf bach".

Rhif: 386/6 Draenog Llywelyn

Stori'n seiliedig ar hanes bywyd Suzanne Spaak, Ffrances gafodd ei llofruddio gan y Natsïaid am guddio plant Iddewig yn yr Ail Ryfel Byd. Mae'n wych i feddwl bod hanes y fenyw ddewr hon yn cael ei chofio 74 o flynyddoedd ar ôl ei marwolaeth a hynny yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Datblyga'r stori'n bennaf trwy ddeialog effeithiol iawn a disgrifiadau byw iawn o Paris dan orthrwm y Natsïaid. Daeth y darn hwn yn agos iawn at fod yn y tri uchaf.

Rhif: 386/7 Angharad

Stori fach dda am ymwelydd oriau mân y bore â theulu fferm. Mae'r ymwelydd yn ddigon ryfedd ei olwg ac mae ganddo gi bach coll yn ei feddiant. Mae'n gadael y ci bach gyda'r teulu gan addo y byddai'n ffonio petai'n dod o hyd i'r perchennog. Mae'r ci'n ymgartrefi'n dda gyda'r plant yn dwlu arno. Yno, un bore canodd y ffôn "Rhewodd calonau'r plant wrth iddynt wrando o ben y grisiau." Ceir disgrifiadau da o fywyd y fferm a'r teulu bach ynghyd ag elfen o ddirgelwch.

Rhif: 386/8 Bisgedi

Stori am fenyw'n cael ei deffro ganol nos gan ddyn yn gwthio i mewn i'w thŷ. Mae'n cario bocs ac yn gofyn iddi'i gadw iddo fel cymwynas ac yna'n rhedeg allan. Dechreuad da ac annisgwyl ond mae tro yng nghwt y stori. Arian wedi'i ladrata o'r banc sydd yn y bocs ac fe gyhuddir Bethan o'i ddwyn. Gorffena'r stori gyda Bethan yn aros i gael ei chludo i'r ddalfa.

Rhif: 386/9 Tân Gwylt

Stori fach effeithiol iawn am ferch a'i ffrind Carwyn. Mae Carwyn yn danfon neges yn ystod y nos er mwyn siarad ond mae Hanna'n gwrthod. Yna, daw'r newyddion y bore canlynol bod Carwyn wedi'i ladd ei hun ac mae Hanna'n beio'i hun. Ceir disgrifiadau da o'r teimlad bod rhywbeth wedi digwydd, Carwyn ddim yn ateb ei ffôn, y Pennaeth yn dod i'r ystafell ddosbarth a phawb yn mynd i'r neuadd, ac yna'r cyhoeddiad a byd Hanna'n darnio. "Fy mai i yw hyn. Os oeddwn i wedi siarad ag e neithiwr, fyddai hyn heb ddigwydd. Un ffafr ofynodd e amdani. Un. Fy mai i ... fy mai i ... fy mai i ..."

Rhif: 386/10 Blodyn Tatws

Stori ryfedd am fachgen yn cytuno i gario parcel at hen wraig ac yna'r ergyd bod y parcel yn cynnwys cyfrinachau fydd yn dechrau'r Trydydd Rhyfel Byd. Nid y stori cymaint, ond dawn yr awdur i ddal naws freuddwyiol y cyfan yw cryfder y stori. Mae'r disgrifiadau o'r daith, y glaw, yr afrealiti a'r diffyg dealltwriaeth o pam mae e wedi cytuno i wneud y gymwynas yn effeithiol iawn, yn ogystal â'r ergyd annisgwyl ar y diwedd.

Rhif: 386/11 Fi

Cymysgedd effeithiol o ymson (gan Hedd Wyn) wedi'i seilio ar olygfeydd o'r ffilm a phytiau o'i farddoniaeth. Y fframwaith yw ymgais Hedd Wyn i ysgrifennu teyrnged i gyfaill sydd wedi marw. Codir cwestiynau ynghylch rôl y Capel/Eglwys wrth annog bechgyn i fynd i ryfel a'r pwysau sydd ar bobl a theluoedd i fynd i ymladd. Yn effeithiol mae'r golygfeydd cyfarwydd o gefn gwlad yn ei atgoffa o ddelweddau'r ffosydd.

Rhif: 386/12 Rhosyn Goch

Stori fach ysgafn a doniol am berthynas a chymwynas rhwng dau gymydog drws nesaf. Mae gan yr awdur/es ddawn arbennig iawn i greu deialog ddoniol iawn sydd yn dylunio cymeriadau'r ddwy. Mae'r sgwrs a'r digwyddiadau'n gredadwy iawn. Mae ci un wedi dinistrio Geraniums y llall flynyddoedd ynghynt ac mae dal yn destun gwrthdaro, herio a gorfodi cymwynas. "A dyna fe, y glo mân. Geraniums mân fel mae'n digwydd!" Clyfar iawn!

Rhif: 386/15 Austin Post

Stori ddiddorol iawn am ddyn cyfoethog yn rhoi'i arian yn dawel i elusennau dros y blynyddoedd ond yn cael ei gollfarnu'n lleol am beidio â'i wario'n lleol. Ceir disgrifiadau da iawn o'r angladd, natur, y sgysiau a'r cymeriadu trwy'r sgysiau. Mae hyn yn bendant yn gryfder gan yr awdur/es.

"Stopiodd. Ceisiodd ddistewi ei meddwl. Anadlodd yn ddyfn wrth arogl'r hanes cyfoethog o'i hamgylch. Meddyliodd am Gerald Roberts. Y dyn nad oedd neb yn ei 'nabod. Dim ond trwy hanesion pytiog a storïau sydyn. Wel, dyma ei stori. Dyma oedd Gerald Roberts. Y dyn distaw oedd yn cyflawni cymwynasau cudd o'i fwthyn bach ym Mro Arfon".

Rhif: 386/17 Twmffat

Darn crefftus iawn gan yr awdur/es sydd yn ymylu ar lif yr ymwybod. Dechreua mewn ffordd effeithiol iawn "Doeddwn i 'rioed yn credu mewn gwyrthiau". "Pruddglwyf sydd bob tro yno yn y diwedd".

Ceir nifer o is-benawdau sydd yn datblygu'r stori – "Llithro". "Anadl". "Pla". – am fachgen sydd yn credu na fydd yr un ferch yn ei garu, trwy'r datblygiad o berthynas hyd at y siom derfynol, ddisgwyliedig – "Pruddglwyf sydd bob tro yno yn y diwedd. Pruddglwyf yw'r unig beth sydd yno yn y diwedd. Dyna i gyd sydd gen i i ddweud." Effeithiol dros ben!

Rhif: 386/18 Egni

Stori gyflawn ac effeithiol am ferch yn dechrau ar ei blwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd. Yno, mae'n cael ei bwlio am ei golwg, ei dillad, marciau da hyd nes i ferch arall ei hamddiffyn. Daw'r ddwy yn ffrindiau mynwesol ac wedyn yn colli cysylltiad ar ôl gadael yr ysgol. Blynyddoedd yn ddiweddarach maent yn cwrdd eto ac mae cyfle i dalu nôl am y gymwynas. Ceir disgrifiadau da a chredadwy o fywyd yr ysgol a'r ail gwrdd.

Rhif: 386/19 Pedro

"Cymwynas" y stori hon yw helpu "ffrind", Gareth, cael gwared ar gorff hen ddynes sydd wedi'i llofruddio yn ystod lladrad yn ei thŷ! Agora'r stori mewn ffordd effeithiol iawn wrth i'r ddau straffaglu trwy ffynwent yn y nos yn cario'r corff mewn bag er mwyn ei rhoi yn yr afon. Mae'r person sy'n adrodd y stori'r ofni Gareth llawn cymaint â'r weithred. Ceir disgrifiadau da, eithaf arswydus, o'r daith a'r weithred o roi'r corff yn yr afon. Yn y diwedd, sylweddola wir perygl ei "ffrind" a'i sefyllfa yntau yn y broses ac mae e'n ffonio'r heddlu. Llwydda'r awdur/es i gyfleu'i ofn o'r sefyllfa trwy sgysiau effeithiol a grymus yn ogystal â disgrifiadau realistig.

Rhif: 386/20 Dawnswraig

Stori bwerus a dirdynol am gyfeillgarwch dwy ferch ysgol a barhaodd trwy'u bywydau. Roedd Sara wedi colli'i mam yn ifanc ac wrth i Manon ddod i'r ysgol daethant yn ffrindiau. Mae'r disgrifiadau o'r cyfeillgarwch yn llenwi'r gwacter ym mywyd Sara yn ardderchog. Yn anffodus, wrth iddynt fynd yn hŷn a Manon yn cael plant, daw'r ergyd – mae Manon yn datblygu cancr y fron. Ceir disgrifiadau arswydus o'r ysbytai, y triniaethau, yr ofn a'r gwanhau – “Yn lle cael coctel alcoholig wrth wyllo ffilm ... bu'n rhaid i Manon gymryd coctel o dabledi phob bore cyn bwyta”. Gyda marwolaeth Manon mae Sara'n mabwysiadu'i merched – “... dyna'r gymwynas orau i mi ei gwneud erioed”. Gwaith ardderchog!

Rhif: 386/21 Pili Pala

Stori am fenyw, Alaw, sy'n gweithio dros elusen sydd yn cynorthwyo adeg argyfyngau. Mae corwynt enfawr wedi digwydd yn Florida ac mae hi'n cael ei galw i helpu. Ceir disgrifiadau da o'r llanast a hithau'n helpu achub bywyd bachgen sydd wedi'i niweidio.

Rhif: 386/22 Coeden

Stori effeithiol iawn am blant yn dod at ei gilydd adeg marwolaeth eu tad. Yr un yw'r tensiynau – dau wedi symud i ffwrdd, yr ifancaf wedi aros ar ôl er mwyn gofalu am yr hen ddyn, y gofid o bwy sy'n cael beth yn yr ewyllys. Yna daw'r sioc o sylweddoli bod y tad wedi gadael peth o'r fferm i ddyn nad oeddynt erioed wedi clywed amdano. Ceir disgrifiadau da iawn gan yr awdur/es – “Disgynnodd tawelwch llethol ar draws y gegin fel amdo trwm. Yna dechreuodd coes Gwilym grynnu yn erbyn coes y bwrdd. Astudiodd Carys ei hewinedd yn fanwl iawn unwaith eto ac anadlais innau yn ddwfn.” Mae dawn gan yr awdur/es i greu sgysiau credadwy a gafaelgar sydd yn datblygu'r stori'n effeithiol ac sydd yn adlewyrchu natur hunanol a checrus rhai o'r cymeriadau.

Rhif: 386/23 Taten

Stori llawn cynnwrf, trais, siom a rhyddhad! Lleolir y stori yng Ngogledd Affrica yng nghanol rhyfel cartref ac mae'n olrhain hanes un dyn a'i gi yn ceisio dianc o erchylltra'r rhyfel. Ceir disgrifiadau grymus o'r bomio, saethu a'r trais sydd o gwmpas Hatem wrth iddo wneud cymwynas â rhywun sydd yn ddihiryn.

Rhif: 386/24 Mwnci Gwyllt

Stori fanwl iawn ac arswydus wrth i Enid llofruddio'i gŵr cyntaf ac yna'n sefydlu perthynas â dyn newydd trwy gyfrwng safle dêtio ffeindiocariad.com. Stori o dwyll a llofruddiaeth arall sydd yn datblygu wrth i Enid barhau â'i chynlluniau dieflig! Mae dawn ddisgrifio a chreu sgysiau credadwy, sydd yn symud y stori yn ei blaen, gan yr awdur/es hyd nes cyrraedd y diwedd glo trychinebus. Da iawn, wir!

Rhif: 386/25 Cochyn

Stori dda iawn am dwyll, gwrth-dwyll a brad ym myd ysbïwyr Prydain a Thwrci. Dechreua'r stori mewn ffordd drawiadol iawn a dysgwn am gefndir y ddau gymeriad. Mae'r stori'n datblygu'n gyflym trwy gyfrwng y sgysiau a'r disgrifiadau effeithiol a manwl o deithio trwy Ewrop a'r paratodau ar gyfer y llofruddiaeth. Yna, fe ddaw tro yn y stori a thro arall cyn y diwedd sydd yn gadael y darllenydd yn syfrdan wrth sylwi gwir ystyr y “gymwynas”. Arbennig o dda!

Rhif: 386/26 Anelog

Stori effeithiol dros ben am ferch yn darganfod mai'i modryb a nid ei mam sydd wedi'i magu hi a bod ei mam go iawn yn llofrudd ac yn y carchar. Wrth ymweld â'i mam yn y carchar dysgwn am y rheswm pam roedd ei mam wedi lladd ei thad a beth yw ystyr y graith ar ei braich. Mae dawn ddisgrifio ardderchog gan yr awdur/es a'r gallu i greu naws synfyfyriol, arall-fydol bron, wrth i gwestiynau, ofnau ac amheuon chwyrlio trwy feddwl Manon – “Dwi'n teimlo'r gwaed yn byrlymu yn fy ngwythiennau. Teimlaf y llythyr yn gyllell yn fy nghefn. Fi...Fi yw'r baich, y poen, y fricsen di-bwrpas, blin mae Modryb Mari yn ei llusgo gyda hi”.

Rhif: 386/28 Y Crythor

Stori fach ddifyr am efeilliaid ac un ohonynt yn priodi. Mae'r llall yn cael y gwaith o warchod y fodrwy briodas tra bod ei chwaer ar ei mis mêl – ond yn llwyddo i'w cholli! Ceir hanes yr helynt wrth geisio prynu fodrwy gyffelyb a diwedd glo annisgwyl. Mae'r awdur/es yn llwyddo i greu golygfeydd, digwyddiadau a sgysiau byw sydd yn gwneud y cymeriadau yn rhai real iawn a'r “tinc o binc” yn cloi'r cyfan yn glyfar iawn.

Rhif: 386/29 Chiz

Stori effeithiol dros ben am effaith marwolaeth mam ar y chwaer a brawd sydd ar ôl. Mae'r ferch wedi gadael cartref ers blynyddoedd ar ôl gweld ei thad yn bwrw ei mam a nawr bod y fam wedi marw'n teimlo'n ddig mai dim ond cloc a gafodd ar ei hôl. Mae'n dwyn hanner yr arian gafodd ei brawd yn yr ewyllys ond ceir tro annisgwyl a gwir gymwynas ar ddiwedd y stori. Mae gallu gan yr awdur/es i greu darluniau (boed yn ddisgrifiadau neu'n ddeialogau) realistig a chredadwy sydd yn symud y stori yn ei blaen yn grefftus iawn. “Teimla Angharad ei gwaed hi'n oeri wrth deimlo oerfel pur y corff dieithr o'i blaen. Dyhea am goflaid ei mam, i waredu pryder ac unigrwydd, i'w rhyddhau o uffern galar. Dechreua'r dagrau lifo, un wrth un wrth un.” “Helo?” Daw llais plentyn oddi ar ochr arall y lein. Llais diniwed, melys. Mae'n troi arna' i”. “Daaaaaad! Mae 'na fenyw ar y ffôn yn gwybod fy enw i. Plant ...ych”. “Teimlaf boen sydyn yn fy mol; poen wahanol yw'r un hwn. Poen fydd wedi'i chreithio ynof am byth”.